

Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Teitl / Darn o waith:	Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yn berthnasol)	MA - L/HID/0471/18
Enw'r Swyddog:	Catrin Davies
Adran:	Yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
Dyddiad:	20 Tachwedd 2018

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar weinyddu a gweithredu trefniadau a wnaed gan Weinidogion Cymru at ddibenion cyllid o'r fath. Yn unol â'r pŵer hwn, bwriedir y bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud darpariaeth yn y rheoliadau i hwyluso rhannu data perthnasol er mwyn datblygu system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwystra mewn perthynas â Chynnig Gofal Plant Cymru ("y Cynnig"). System ar-lein fydd hon yn bennaf er y bydd modd gwneud cais all-lein hefyd, a bydd llinell gymorth benodedig ar gael.

Prif ffocws y Bil yw galluogi casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwystra person ar gyfer y Cynnig. I'r perwyl hwn, bwriedir y bydd y Rheoliadau a wneir o dan y Bil yn ei gwneud yn bosibl i adrannau perthnasol y Llywodraeth rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru at ddibenion dyfarnu cymhwystra person a throsglwyddo'r data perthnasol a'r dyfarniadau yn ôl y gofyn. Bydd y Bil hefyd yn caniatáu gwneud trefniadau i osod cosbau mewn sefyllfaoedd lle mae ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu'n ymddwyn yn anonest. Rhaid i'r Rheoliadau a wneir o dan y Bil ddarparu trefniadau er mwyn i ymgeiswyr allu gofyn am adolygu cosb neu benderfyniad ynghylch eu cymhwystra, a chreu proses ar gyfer apelio yn erbyn cosb neu benderfyniad ynghylch cymhwystra.

Y cefndir polisi Cymru

Bwriedir i'r Bil helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Amlinellwyd yr ymrwymiad hwn yn *Symud Cymru Ymlaen*¹ ac yn *Ffyniant i Bawb*².

Mae darpariaeth o ansawdd ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch ac ar gael ar yr adegau pan fo'i hangen ar rieni, yn hollbwysig i hybu'r economi, gan helpu rhieni, yn enwedig mamau, i weithio a/neu gynyddu eu horiau gweithio. helpu rhieni, yn enwedig mamau, i weithio a/neu gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio. Dangoswyd hefyd mai ennill dau gyflog (aelwydydd cyplau) neu gyflogaeth (aelwydydd un rhiant) yw'r llwybr gorau allan o dlodi a'r ffordd orau o fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynyddu incwm aelwydydd ac yn codi safon byw'r teulu cyfan. Mae lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith hefyd yn flaenoriaeth, gan fod plant sy'n byw ar aelwydydd o'r fath mewn perygl penodol o fyw mewn tlodi.

Bydd ein cynnig gofal plant yn helpu teuluoedd drwy ddarparu cyfleoedd a chymorth iddynt. Bydd yn sicrhau bod gan blant le diogel a diddorol i ffynnu, dysgu a thyfu a bod bywyd yn y cartref yn well oherwydd llai o bwysau ar deuluoedd. Drwy helpu rhieni sy'n gweithio gyda chostau gofal plant, rydym yn dileu un o'r rhwystrau posibl rhag cael cyflogaeth, yn cynyddu

¹Llywodraeth Cymru - Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

<http://llyw.cymru/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

²Llywodraeth Cymru - Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol

<http://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

dewisiadau o ran cyflogadwyedd ac yn dylanwadu ar incwm gwario.

Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol i addysg gynnar, sy'n darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar am ddim i bob plentyn 3 a 4 oed yn ystod y tymor ysgol, o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Yn ogystal, bydd rhieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio yn gymwys ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig.

Cymhwystra ar gyfer cyllid gofal plant

Bydd y Bil yn pennu'r meini prawf cymhwystra cyffredinol ar gyfer y cyllid. Bydd rheoliadau a chynllun gweinyddol yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut y caiff y Cynnig ei weinyddu a'i weithredu. Mae Datganiadau o Fwriad y Polisi bellach ar gael i'w harchwilio gan y Cynulliad, mewn perthynas â'r rheoliadau a'r cynllun. Bydd cyllid ar gael o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed hyd at y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed:

- lle mae'r ddau riant yn gweithio neu lle mae'r unig riant mewn teuluoedd unig rieni yn gweithio;
- lle mae'r ddau riant yn ennill, ar gyfartaledd, cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol;
- lle mae rhieni'n hunangyflogedig neu ar gontractau dim oriau, ar yr amod eu bod eu henillion cyfartalog dros gyfnod o 3 mis yn bodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion wythnosol.

Os yw o leiaf un riant ar yr aelwyd yn ennill £100,000 neu fwy'r flwyddyn, ni fydd y teulu hwnnw'n gymwys i fanteisio ar yr oriau ychwanegol o ofal plant a ddarperir drwy'r Cynnig.

Oherwydd bod sawl math gwahanol o deulu a bod eu sefyllfaoedd a'u hamgylchiadau yn gallu bod yn gymhleth weithiau, bydd y cyllid ar gael mewn amgylchiadau eithriadol eraill gan gynnwys:

- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb riant, mamolaeth neu fabwysiadu statudol;
- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gwaith dros dro ar dâl salwch statudol;
- lle mae un riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ac un riant yn anabl neu wedi'i analluogi yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a geir am ofalu. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd lle mae un riant yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a'r riant arall yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:
 - Budd-dal analluogrwydd
 - Lwfans gofalwyr

- Lwfans anabledd difrifol
- Lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n seiliedig ar incwm
- yn y 12 mis cyntaf lle mae rhiant newydd ddod yn hunangyflogedig ac y mae eu busnes o fewn y cyfnod dechrau cychwynol. Bydd angen i rieni gofrestru'r busnes gyda Chyllid a Thollau EM a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys ond ni fydd angen iddynt fodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion yn ystod y cyfnod hwn;
- ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau os ydynt yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio.

System ymgeisio a gwirio cymhwysra

Bydd y Cynnig yn gyfuniad o'r addysg gynnar y mae gan bob plentyn 3 a 4 oed hawl iddi ynghyd ag oriau ychwanegol o ofal plant ar gyfer rheini sy'n gweithio. Mae angen inni felly ddatblygu model sy'n ei gwneud hi'n hawdd i rieni sy'n gweithio fanteisio ar yr oriau ychwanegol o ofal plant drwy'r Cynnig. Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu system gais gofal plant ar-lein sy'n mynd i gynnis profiad hwylus i'r cwsmer.

1.1 Ystyriwyd pum opsiwn ar gyfer darparu system ymgeisio a gwirio cymhwysra a cheir rhagor o wybodaeth am fanteision ac anfanteision y rhain yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cael ei gyhoeddi gyda'r Bil. Rydym wedi cyflwyno newid i'r trefniadau ar gyfer yr ail flwyddyn o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Yn y flwyddyn gyntaf, gwnaeth pob awdurdod lleol ymgymryd â'r broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparu gofal plant. Ar gyfer y cyfnod sy'n weddill, bydd yr awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth, gydag un awdurdod yn derbyn ac yn prosesu ceisiadau ar ran awdurdodau eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol. O ganlyniad i'r trefniadau newydd hyn, rydym wedi ychwanegu pumed opsiwn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd bellach wedi'i bennu fel yr opsiwn sylfaenol ("gwneud dim").

1.2

Rhagwelir y caiff y system ymgeisio a gwirio cymhwysra ei rhedeg gan CThEM (fel yr "awdurdod perthnasol") gan ddefnyddio eu Gwasanaeth Gofal Plant sydd â chysylltiadau gyda'r data perthnasol ar gyfer gwirio ac sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Bydd ceisiadau am y cynllun cyllido gofal plant yn gweithio mewn ffordd debyg i'r system sydd eisoes yn weithredol yn Lloegr ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac sydd wedi'i brofi ers 2017 a y Cynllun Gofal Plant Di-Dreth (TFC)

Y bwriad yw addasu'r system hon er mwyn bodloni gofynion y Cynnig yng Nghymru. Mae defnyddio system CThEM yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys:

- galluogi gwiriadau cymhwysra i gael eu gwneud ar sail data ar y sefyllfa ar yr union adeg honno a darparu system a dull gweithredu cyson ar draws Cymru gyfan;
- rhoi penderfyniadau cyflym i rieni ynghylch eu cymhwysra;
- lleihau'r risg yn ymwneud â diogelwch data a thwyll;
- profiad CThEM, drwy eu Gwasanaeth Gofal Plant, o weinyddu'r gwiriadau cymhwysra ar gyfer y cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig gofal plant yn Lloegr. Erbyn i'n Cynnig ni gael ei gyflwyno'n llawn, bydd ganddynt dair blynedd o brofiad a dysgu.

Ymgysylltu

Gwahoddwyd aelodau o Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant i sesiwn ymgysylltu ar 23 Tachwedd 2017 i drafod rhai o'r opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o ran gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra ar gyfer cyllido gofal plant. Roedd y sesiwn yn gyfle i drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Plant; Arolygiaeth Gofal Cymru, CWLWM³, a chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, rai o fanteision ac anfanteision y pedwar opsiwn a amlinellir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a phwrpas y Bil arfaethedig. Cynhaliwyd sesiwn arall ar 14 Mawrth 2018 lle rhannwyd rhannau o'r Bil ag aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae'r Grŵp wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y Bil yn ystod ei daith drwy'r Cynulliad.

Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn 'gwersi a ddysgwyd' â'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar 17 Ionawr 2018 a oedd yn ddefnyddiol i ddeall rhai o'r heriau a'r materion sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu presennol ar gyfer gwirio cymhwysra, a ffyrdd eraill o gyflawni'r amcan polisi hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n briodol â'r rhanddeiliaid y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, yn enwedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Bil y Cynnig Gofal Plant (Cymru)

Prif ddiben y Bil yw galluogi datblygu system genedlaethol ar-lein ar gyfer gwirio a yw'r rheini sy'n gwneud cais am y Cynnig yn gymwys i wneud hynny. Ni fyddai'r system ar-lein ynddi'i hun yn cael unrhyw effeithiau penodol ar hawliau plant. Bydd ond yn sicrhau bod y plant cymwys yn cael eu nodi a bod eu rhieni, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn derbyn y gofal plant wedi'i gyllido y mae ganddynt hawl iddo.

Bydd pob math o deuluoedd yn gallu defnyddio'r system ar-lein a chyflwyno cais am ofal plant wedi'i gyllido, gan y bydd dwy ffordd o wneud cais. Bydd ceisiadau ar-lein yn cael eu hanfon drwy borthol digidol; bydd ceisiadau all-lein yn cael eu rheoli dros y ffôn. Bydd y system genedlaethol yn hwyluso'r broses o ddarparu'r Cynnig drwy gynnig ffordd hawdd a chyflym o wneud cais am ofal plant a rhoi penderfyniad cyflym ynghylch cymhwysra. Bydd hynny'n caniatáu i'r ymgeisydd a'r plentyn fanteisio ar y cynnig cyn gynted ag y gellir gwneud trefniadau â darparwr cymwys.

Fel mae'r Aseiad Effaith Rheoliadol yn ei ddangos, mae'r baich ar rieni sy'n gysylltiedig â'r broses lle mae awdurdodau lleol yn gwirio cymhwysra ac yn gweinyddu'r cynnig (opsiynau 1 a 5) yn sylweddol uwch o'i gymharu â'r opsiynau eraill, gyda'r gost uchaf i rieni a gwarcheidwaid yn ymwneud â'r amser sydd ynghlwm â gwirio cymhwysra a chyflwyno cais a dogfennau ategol (lle bo angen).

³ Mae Cwlwm yn dwyn ynghyd y pum sefydliad gofal plant yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaeth integredig dwyieithog sy'n ceisio sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer plant a theuluoedd ar draws Cymru. Dyma'r sefydliadau partner Cwlwm: Mudiad Meithrin; Clybiau Plant Cymru; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd; y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynnydoedd Cynnar, a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru.

Yn ogystal, trwy ddatblygu system sy'n debyg i'r model sy'n cael ei gweithredu yn Lloegr ar hyn o bryd, dylai fod modd osgoi sefyllfa yng Nghymru lle mae pob Awdurdod Lleol yn mynd ati mewn ffordd wahanol i wirio cymhwysra. Bydd hyn yn golygu y bydd pob ymgeisydd a phlentyn ar draws Cymru yn gallu defnyddio'r un gwasanaeth a bydd yr un rheolau yn gymwys. Gan y bydd y ceisiadau yn gweithio mewn ffordd debyg iawn i'r system sy'n weithredol ar draws y DU ar gyfer y cynllun Gofal Plant Di-Dreth (TFC) ac mae siawns well y bydd rheini yn gwneud cais am y Cynnig ac am TFC, gan ddod â'r budd mwyaf posib o safbwynt eu hincwm a hefyd i'r plant.

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Canlyniad Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) fydd rhoi mynediad i rieni plant 3 a 4 oed i 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y Llywodraeth, a hynny am 48 wythnos y flwyddyn. Bydd y Bil yn galluogi ac yn hwyluso darparu'r cynnig drwy amlinellu proses ymgeisio a gwirio cymhwysra sy'n yn hawdd i rieni ei defnyddio ac sy'n rhoi penderfyniadau cyflym, gan ganiatáu i'r rhiant fanteisio ar y Cynnig cyn gynted ag y byddant yn gymwys i'w dderbyn.

Bydd y Bil a'r Cynnig yn cefnogi ac yn hybu hawliau plant drwy gefnogi'r erthyglau a ganlyn, yn benodol:

Mae **Erthygl 18** yn datgan y dylai'r Llywodraeth gefnogi rhieni i ofalu am blant, yn enwedig lle mae'r ddau riant yn gweithio. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad statudol i sicrhau bod gofal plant o ansawdd uchel ar gael ar draws Cymru sy'n gynaliadwy a fforddiadwy, ac mae'n cydweithio'n agos â'r Awdurdodau Lleol i gyflawni hyn. Bydd y Cynnig yn cefnogi rhieni sy'n gweithio drwy gyllido oriau o ofal plant, sydd yn gost sy'n eu hatal rhag dychwelyd i weithio neu wneud newidiadau i'w cyflogaeth er mwyn i'r trefniadau weddu'n well i amgylchiadau eu teulu. Bydd unrhyw system ymgeisio a ddatblygir, a fydd yn cael ei ategu gan Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru), yn ceisio helpu rhieni i wneud cais am y Cynnig a chael mynediad ato yn y ffordd symlaf bosibl;

Mae **Erthygl 26** yn datgan y dylai'r Llywodraeth ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer plant teuluoedd mewn angen. Drwy ddarparu cyllid i dalu costau gofal plant, bydd y Cynnig yn galluogi rhieni i ystyried gweithio mwy o oriau neu gallai arwain at ddewis gyrfa gwahanol neu yrfa sy'n talu'n well;

Mae **Erthygl 27** yn datgan bod gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i fodloni eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio gwneud hyn.

Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Pan fydd cyngor ac argymhellion yn cael eu rhoi i Weinidogion ar ddatblygu'r Cynnig, mae'r Tîm Cynnig Gofal Plant yn gyfrifol am ystyried sut mae'r darn hwn o waith yn helpu i hybu hawliau plant yn unol ag erthyglau CCUHP.

Mae'r holl gyngor a gyflwynwyd i'r Gweinidog hyd yn hyn wedi nodi bod lles gorau'r plentyn wedi'i ystyried ac mae'r cyngor yn manylu ar hyn, lle bo'n briodol, er mwyn galluogi'r Gweinidog i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share

Mae'r holl waith papur sy'n ymwneud â'r Cynnig, gan gynnwys ymgynghoriadau, ymchwil a phenderfyniadau polisi wedi cael eu storio ar system reoli cofnodion Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn parhau drwy gydol cyfnod peilot y rhaglen nes ei bod wedi'i rhoi ar waith yn llawn. Bydd yr Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Mae'r aseiad hwn yn cael ei storio ar iShare, sef system rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru (A17671790)

Bydd yr Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau fel bo'r angen

- i. Ar ôl y gweithredu cynnar
- ii. Ar ôl gwerthuso'r rhaglen
- iii. Ar ôl proses craffu Cam 1 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Nac oes

Rhowch unrhyw fanylion:

Mae gofynion egwyddorion y CCUHP wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r polisi hwn a, lle'n bosibl, wedi'u hymgorffori yn y polisi. Ar hyn o bryd, nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol wedi'u nodi yn sgil cwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Ceir manylion y costau a amcangyfrifir ar gyfer yr opsiwn a ffefrir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddir gyda'r Bil. Amcangyfrifir y bydd y costau trosiannol yn 2019-2020 tua £3.5M a'r costau blynyddol ar ôl hynnytua £1M.

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?	Oes
Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu	<p>Ar yr amod bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol ar ddechrau 2019, nid oes cynlluniau i gynnal unrhyw adolygiadau pellach.</p> <p>Bydd asesiadau effaith integredig ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil hwn ac mewn cysylltiad â'r Cynnig Gofal Plant yn fwy cyffredinol.</p>